Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Canllawiau Addysgu
Uned 3

UNED 3:
HYBU HAWLIAU UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES

Cyflwyniad:
Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

Rhaglen Astudio:
Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

Trosolwg o'r cynnwys:
Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau unigolion a'r rhwystrau i gyfranogiad y gallant eu hwynebu, sut mae'r rhain yn cael eu hybu a'u herio er mwyn gwella iechyd a llesiant.

Asesiad:
Caiff yr uned hon ei hasesu drwy aseiniad penodol sy'n cynnwys un dasg; Yn y dasg mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes. Bydd dysgwyr yn cael amser penodol i lunio'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, gan gwblhau'r gwaith dan oruchwyliaeth yn y ganolfan. Gellir cyflwyno'r dystiolaeth naill ai fel podlediad, cyflwyniad neu fideo.

Gall canolfannau ddechrau'r aseiniad hwn unwaith y bydd cynnwys yn uned wedi'i gyflwyno.

© WJEC CBAC Cyf

Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:
Uned 3 Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
3.1 Hawliau unigolion	Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu. Dysgwyr i feddwl am yr hyn y mae gan unigolion hawl iddo yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, trafodaeth a arweinir gan diwtor (cysylltiad ag uned 1 deddfwriaeth). Canolbwyntiwch ar hawl unigolion i'r canlynol: • cael llais, dewis a rheolaeth • derbyn gohebiaeth yn eich dewis ddull neu iaith • cael eich trin ag urddas a pharch fel unigolyn • cael eich amddiffyn rhag perygl a niwed • bod eich hawliau yn cael eu hystyried • mynediad i wybodaeth sy'n berthnasol i'r unigolyn • cydsyniad gwirfoddol a chydsyniad gwybodus • gwybod beth yw eich hawliau.	Deddf Hawliau Dynol 1998: https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol Uned 1 nodiadau dosbarth	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos
	Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch hawliau sylfaenol ac anghenion unigolion (cysylltiad â damcaniaethau Maslow ac Erikson yn uned 2), gan gynnwys: • safon byw ddigonol (gan gynnwys bwyd a thai) • addysg • y safonau • rhyddid meddwl, crefydd a mynegiant. Dysgwyr i weithio mewn parau ac ystyried y grwpiau canlynol o unigolion: • unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl gwael • oedolion hŷn • unigolion sy'n byw gyda dementia • unigolion sydd â nam corfforol • unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol • unigolion sy'n byw gydag afiechyd tymor hir	Hierarchaeth Anghenion Maslow: https://www.simplypsychology.org/maslow.html Camau Datblygiad Seicogymdeithasol Erikson: https://www.simplypsychology.org/Erik-Erikson.html Uned 2 nodiadau dosbarth	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu o'r canfyddiadau

© WJEC CBAC Cyf

	• unigolion sy'n byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd Dysgwyr i lunio mapiau meddwl o sut y gellid bodloni anghenion cefnogi pob grŵp, gan gynnwys: • cefnogaeth ymarferol: bwyd, cynhesrwydd a lloches • cefnogaeth ariannol: costau byw sylfaenol, tai, gwasanaethau, treuliau • cefnogaeth emosiynol: teulu a ffrindiau		

© WJEC CBAC Cyf

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
3.2 Deall iechyd a llesiant	Mewn parau neu grwpiau bach, dysgwyr i arwain trafodaethau eu hunain ac ymchwilio i'r ffordd y mae iechyd a llesiant yn gyflwr llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol llwyr ac nid absenoldeb afiechyd neu wendid yn unig, a'i fod yn cynnwys y canlynol: • hawliau a hawliadau • iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol • diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod (diogelu) • addysg, hyfforddiant a hamdden • cysylltiadau domestig, teuluol a phersonol (perthyn i'r gymuned, cael eich trin â pharch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol) • cyfraniad at gymdeithas • llesiant cymdeithasol ac economaidd • addasrwydd cartref unigolyn • rheolaeth yr unigolyn dros ei fywyd beunyddiol, ei ofal a'i gymorth a sut mae'r rhain yn cael eu darparu • urddas personol a thrin unigolion â pharch • iechyd a llesiant plant (datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol) a lles (anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol) Parau/grwpiau i gael un o'r uchod er mwyn iddynt ymchwilio iddo a'i drafod neu roi cyflwyniad i'r dosbarth arno yn dangos sut mae'n cael ei ddefnyddio i wella iechyd a llesiant	Canllaw ar hawliau dynol yng Nghymru: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/canllaw-ar-hawliau-dynol-yng-nghymru/ Llywodraeth Cymru – Tai: https://www.llyw.cymru/tai Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru Llesiant y plentyn, rhestr wirio: The Welfare Checklist - childlawadvice.org.uk	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos
	Dysgwr i wneud cysylltiadau o uned 2: 2.1 ar ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant gan gynnwys: amgylcheddau economaidd, corfforol a chymdeithasol • nodweddion ac ymddygiadau unigolyn. Dysgwyr i lunio nodiadau ar eu canfyddiadau.	Uned 2 nodiadau dosbarth	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu o'r canfyddiadau

© WJEC CBAC Cyf

	Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut mae mwynhau'r safon orau bosibl o iechyd a llesiant yw un o hawliau sylfaenol pob unigolyn heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, cred wleidyddol, cyflwr economaidd neu gymdeithasol a pham mae hyn yn bwysig. Dysgwyr i lunio mapiau meddwl o'u syniadau am y testun hwn.	Deddf Hawliau Dynol 1998: https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr yn barod ar gyfer y sesiwn nesaf

© WJEC CBAC Cyf

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
3.3 Rhwystrau i gyfranogiad	Trafodaeth a arweinir gan ddysgwyr, yn dilyn ymchwil annibynnol, ynghylch un o'r rhwystrau canlynol i gyfranogiad, herio anghydraddoldeb a hybu hawliau unigolion: • rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol: iaith, defnyddio lefel iaith sy'n anhygyrch, argaeledd cyfieithwyr, gwybodaeth mewn fformatau amgen e.e. sain, braille, print bras • rhwystrau amgylcheddol: mynediad priodol i adeiladau, byw mewn ardaloedd pellennig yn bell o wasanaethau, trafnidiaeth hygyrch • rhwystrau ariannol: cost cael mynediad at y gwasanaeth, parcio ceir a thocynnau bws • corfforol: oedran, anabledd, rhywedd, colli synhwyrau, rhwystrau seicolegol: barn unigolion am wasanaeth, efallai na chafwyd profiadau blaenorol da, ofni'r anhysbys. Yn dilyn y drafodaeth, dysgwyr i lunio nodiadau adolygu ar bob un o'r pwyntiau uchod.	Cyflwyniad i gyfathrebu yng nghyd-destun gofal cymdeithasol yng Nghymru: https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/SCI-Induction-to-Communication-English.pdf 'Mwy na geiriau': http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/415/web%20-%2016184_narrative_e_web.pdf	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos
	Yn dilyn o'r drafodaeth flaenorol, dysgwyr i lunio cyfres o bosteri sy'n esbonio pam mae rhwystrau yn dal i fodoli a bod gan unigolion, sefydliadau a Llywodraeth Cymru ran i'w chwarae mewn iechyd a llesiant, gan gynnwys: • problemau hygyrchedd a diffyg integreiddio ac atal e.e. methu â manteisio ar wasanaethau sy'n agos at y cartref neu mewn modd amserol oherwydd rhestrau aros hir • prinder staff yn y gweithlu a hyfforddiant annigonol • cyllid annigonol ar gyfer rhai gwasanaethau, e.e. gwasanaethau iechyd meddwl • darpariaeth annigonol o wasanaethau mewn rhannau penodol o Gymru, loteri cod post e.e. trin anhwylderau bwyta.		Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos

© WJEC CBAC Cyf

	Trafodaeth a arweinir gan athro ynghylch sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo hybu hawliau unigolion. (Cysylltiad ag uned 1, adrannau: 1.1, 1.3, 1.4) Dysgwyr i lunio taflen i fyfyrwyr newydd am sut i hybu hawliau unigolion, gan gynnwys: • gwybod hawliau unigolion • dweud wrth unigolion pa hawliau sydd ganddyn nhw • mynd ati i ddangos ymarfer nad yw'n gwahaniaethu • cadw at safonau a chodau proffesiynol • cynnal dewis a llesiant unigolion • cynnal egwyddorion gofal	Uned 1 nodiadau dosbarth	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos

© WJEC CBAC Cyf

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
3.4 Hybu hawliau unigolion	Trafodaeth a arweinir gan athro ynghylch y dulliau o hybu hawliau unigolion er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys: • grymuso unigolion i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau • annog hunanbenderfyniad • cydsyniad gwybodus – proses ar gyfer cael caniatâd gan unigolyn cyn cael triniaeth neu ofal a chymorth • model dwyochrog, dull sy'n seiliedig ar hawliau	Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso: https://phw.nhs.wales/topics/promoting-individual-and-community-wellbeing/principles-of-community-engagement-welsh/ Cydsyniad: cleifion a doctoriaid yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd:	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos
	• gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu • polisïau a chynlluniau gofal a chymorth personol • cydymffurfio â chodau ymddygiad/ymarfer • annog cyfranogiad gweithredol • cydweithio drwy gydgynhyrchu a datblygiad cymunedol • datblygu ymwybyddiaeth feirniadol • mynediad at addysg • darparu llais drwy eiriolaeth. Dysgwyr i lunio mapiau meddwl o bob dull	https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/gmc-guidance-for-doctors---consent---english_pdf-48903482.pdf?la=en&hash=588792FBA39749E57D881FD2E33A851918F4CE7E Dewis – Cynlluniau Gofal a Chymorth: https://www.dewis.cymru/your-care-and-support-plan Gofal Cymdeithasol Cymru – Cydgynhyrchu: https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cydgynhyrchu Gofal Cymdeithasol Cymru – Eiriolaeth	
	Dysgwyr i weithio mewn parau/grwpiau bach i ymchwilio i, a llunio, cyflwyniad (PowerPoint, Prezi neu boster academaidd) ar strategaethau, mentrau ac ymgyrchoedd sy'n hybu hawliau unigolion er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant a sut mae'r strategaeth/menter/ymgyrch yn bwriadu gwneud hyn: • Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ar gyfer Cymru (strategaeth) • Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru (menter) • MIND – Amser i Newid Cymru (a gynhelir gan y trydydd sector)	Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cymru https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022.pdf Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru: https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/ein-blaenoriaethau/ MIND – Amser i Newid Cymru: https://www.timetochangewales.org.uk/cy/	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos

© WJEC CBAC Cyf

	• Cymdeithas Alzheimer – Cynllun Gweithredu Dementia i Gymru (a gynhelir gan y trydydd sector). Mae'r strategaethau a'r mentrau a restrir uchod yn sensitif o ran amser. Mae rhestr o'r strategaethau, y mentrau a'r ymgyrchoedd diweddaraf ar gyfer hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/	Cymdeithas Alzheimer – Cynllun Gweithredu Dementia i Gymru: https://www.alzheimers.org.uk/get-involved/our-campaigns/dementia-action-plan-wales	

© WJEC CBAC Cyf

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
3.5 Deddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion	Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch deddfwriaeth yn sail i strategaethau a mentrau ar gyfer hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant (Cysylltiad ag uned 1: adran 1.2) • Deddf Hawliau Dynol 1998: sicrhau bod hawliau dynol ar gael i bawb yn y DU • Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011: rhoi dyletswydd ar weinidogion Cymru i roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) • Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (OHCHR) Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth uchod sy'n sail i'r strategaethau a mentrau a restrwyd yn cael ei defnyddio.	Deddf Hawliau Dynol 1998: https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2017/09/Unicef-UK-Briefing_Child-Rights-Impact-Assessment_Wales_September-2017.pdf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991: https://www.olderpeoplewales.com/en/about/un-principles.aspx	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos
	Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch deddfwriaeth yn sail i strategaethau a mentrau ar gyfer hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant: • Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) • Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a gymhwysir yn y mentrau Byw heb Ofn, Gofyn a Gweithredu at y sawl a effeithir gan bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â gofynion cyrff cyhoeddus ar gyfer nodi amcanion llesiant, gweithio cydweithredol ac atebolrwydd yn unol â'r saith nod llesiant.	Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn gwasanaethau gofal: https://www.nursingtimes.net/roles/nurse-managers/how-the-equality-act-affects-you-14-01-2011/ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/345108/easy-read-un-convention.pdf Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_en.pdf	Adnoddau ar-lein CBAC Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos

© WJEC CBAC Cyf

	Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth uchod sy'n sail i'r strategaethau a mentrau a restrwyd yn cael ei defnyddio.	Byw Heb Ofn: https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn Gofyn a Gweithredu https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/10-egwyddor-gofyn-a-gweithredu.pdf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/	
	Paratowch ddysgwyr ar gyfer asesiad dan reolaeth – defnyddiwch asesiadau di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 3 sydd ar https://www.dysguiechydagofal.cymru/		Adnoddau ar-lein CBAC Eu nodiadau adolygu eu hunain a wnaed wrth i'r cynnwys gael ei gyflwyno
	Asesiad dan reolaeth		

© WJEC CBAC Cyf